**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | D W Helliwell |
| Y V Jardine | P K Jones | M Sherwood |
| L J Tyler-Lloyd | L V Walton | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
Y V Jardine

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Liz thomas-Evans | Prif Ymgynghorydd a Chwnselydd Rheoli Straen |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |

---

## 7 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 8 Cofnodion.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n cyfarfod ymhellach â'r Cynghorydd David Hopkins ynghylch y Strategaeth Cydgynhyrchu a'r Polisi Datblygu Cynaliadwy.

Bu'r Cynghorydd Louise Gibbard yn arwain ar y Cynnig Mae Bywydau Du o Bwys a byddai'r Cadeirydd yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

**9 Y Diweddaraf am Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydiadol.**

Cyflwynodd y Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol adroddiad yn amlinellu'r camau/mesurau a gymerwyd yn ystod COVID-19 i gefnogi'r gweithlu. Amlygodd y canlynol: -

- Egwyddorion Ategol
- Datblygu tudalen Cwestiynau Cyffredin
- Cyfathrebu a chynnwys gweithwyr ac Undebau Llafur
- Ymgynghoriad a chefnogaeth ar gyfer gweithwyr BAME - Lluniwyd asesiad risg penodol ar gyfer gweithwyr BAME ac mae'r gydnabyddiaeth hynny wedi derbyn cydnabyddiaeth ac wedi'i mabwysiadu ar draws Cymru
- Egwyddor Dim Anfantais
- Gweithio ystwyth/Gweithio o bell - arweiniad ac asesiadau risg i sicrhau y gellir gweithio'n ddiogel mewn cartrefi
- Datblygiad Polisi yn y Dyfodol

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Ystyried costau uwch o weithio gartref o ran trydan a gwresogi
- Cefnogaeth ychwanegol ar gyfer offer TG
- Cefnogi gweithwyr sy'n profi cam-drin domestig
- Ystyried/cynnwys cam-drin economaidd yn y polisi cam-drin domestig
- Arolwg ar gyfer staff am weithio gartref - posibilrwydd ail-wneud yr arolwg oherwydd gallai barn pobl fod wedi newid ar ôl ei brofi am gyfnod hirach
- Gostyngiad treth ar gyfer staff
- Asesiadau risg ar gyfer gweithwyr
- Gwaith gwych wedi'i wneud o ran cefnogi gweithwyr BAME
- Cynnydd a datblygiad Polisi Gweithio Ystwyth - i gynnwys gweithio gartref

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**10 Help Llaw.**

Rhoddodd Prif Ymgynghorydd a Chwnselydd Rheoli Straen ddiweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y gwaith a wnaed gan wasanaeth Help Llaw yn ystod COVID-19. Amlygodd y canlynol:

- Pryder am staff, yn enwedig y rheini ar y rheng flaen
- Rhoddwyd hyfforddiant i wirfoddolwyr er mwyn iddynt ddarparu cymorth cyntaf seicolegol mewn argyfwng
- Ymagwedd ragweithiol - cynigiwyd cyfaill gwirfoddol i staff y rheng flaen ynghyd â galwad 15 munud bob wythnos heb iddynt orfod cysylltu â'r gwasanaeth dros eu hunain
- Dangosodd werthusiad o'r gwasanaeth fod lles a gwydnwch staff wedi gwella ar ôl defnyddio'r gwasanaeth am rai wythnosau

- Cynigiwyd hyn hefyd i gartrefi gofal preifat lle nad oedd cefnogaeth o'r fath ar gael
- Hyfforddiant ar-lein i staff, yn ogystal â hyfforddiant mewn fformatau eraill ar gyfer y rheini na allant gyrchu'r hyfforddiant ar-lein
- Byddai atgyfeiriadau newydd i'r gwasanaeth yn derbyn galwad o fewn 24 awr
- Gwasanaeth ar agor i bob aelod o staff, gan gynnwys Aelodau

Trafododd y Pwyllgor feysydd ariannu a chefnogaeth ar gyfer y gwasanaeth

Diolchodd y Pwyllgor i'r Prif Ymgynghorydd a Chwnselydd Rheoli Straen a'i thîm am y gwaith y maent wedi'i wneud o ran cefnogi staff.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**11 Cydgynhyrchu.**

Rhoddodd y Swyddog Strategaeth a Pholisi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor fod Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata, Lee Wenham, wedi ymgymryd â'r gwaith ar Gydgynhyrchu. Gall y Bwrdd Cydraddoldebau Strategol newydd gwmpasu'r gwaith hwn hefyd.

Nodwyd bod enghreifftiau o roi cynnig ar gydgynhyrchu cyn hyn ond nid oeddent wedi bod mor llwyddiannus ag y gobeithiwyd. Byddai'n ddefnyddiol edrych ar yr hyn nad oedd yn llwyddiannus a pha welliannau y gellid eu gwneud i helpu i symud ymlaen yn fwy cynhyrchiol.

Byddai'r Cadeirydd yn cyfarfod ag Aelod y Cabinet ac yn rhoi diweddariad.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**12 Cynllun Gwaith 2020/21.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020/21 a chadarnhaodd y byddai'n cyfarfod ag Aelodau perthnasol y Cabinet i symud ymlaen â'r Cynllun Gwaith a'r blaenoriaethau.

Ychwanegir Cydgynhyrchu at gyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr ynghyd â'r Strategaeth Ynni a'r Amgylchedd Naturiol.

**Penderfynwyd** diweddaru'r cynllun gwaith yn unol â hyn.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.00 pm

**Cadeirydd**